

Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3230A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham	4
Sefyllfa ariannol	5
Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	8
Cynllun lleihau carbon	9
Argymhellion	12

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Fe gynhaliom ni'r prosiect hwn i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gallai gwaith archwilio pellach fod yn ofynnol mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe helpodd y prosiect hwn ni hefyd i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle'r ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg mwy manwl. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.
- 3 Fe ganolbwyntiom ni ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:
 - Sefyllfa ariannol
 - Cynllunio adferiad [o'r pandemig]
 - Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
 - Trefniadau hunanasesu
 - Cynllun lleihau carbon
- 4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys canfyddiadau a gododd o gyfweiliadau gyda swyddogion y Cyngor a'n hadolygiad o ddogfennau perthnasol.
- 5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn mynd rhagddo trwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom fwydo canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg yn ôl i swyddogion wrth i ni wneud y gwaith hwn, ac fe gynhaliom ni weithdy hefyd gyda'r Uwch Dîm Arwain ac aelodau Cabinet ym mis Mawrth 2022 lle gwnaethom rannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â rhai agweddau ar y gwaith hwn. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r gweithdy i gasglu safbwyntiau uwch reolwyr am y risgiau archwilio allweddol mewn perthynas â'r Cyngor ac i oleuo ein gwaith blaengynllunio.

Sefyllfa ariannol

Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a thanwariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn golygu bod sefyllfa'r Cyngor o ran ei gronfeydd wrth gefn wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn dal heb ddatblygu digon, a bydd cylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn gryn her yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol


- 6 Fe wnaethom adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod mis Mehefin a mis Awst 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa'r Cyngor o ran ei gronfeydd ariannol wrth gefn, cyflawni arbedion wedi'u cynllunio a pherfformiad yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.
- 7 Fe gyhoeddodd ni [offeryn data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol](#) ym mis Chwefror 2022, sy'n cynnwys ystod o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Strategaeth ariannol

- 8 Canfu ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol, er bod ganddo sefyllfa ariannol gref, fod cynllun ariannol tymor canolig (CATC) y Cyngor heb ddatblygu digon. Nid oedd y strategaeth yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i hanes o danwariant sylweddol na'i gynlluniau trawsnewid. Nid oedd y Cyngor wedi gwneud ei welliannau arfaethedig i'w CATC yn 2020-21 gan ei fod yn ymateb i effaith COVID-19. Fe gynigiom ni y dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu CATC mwy cynhwysfawr ac y dylai'r manteision ariannol bwriadedig sy'n deillio o'i Raglen Drawsnewid gael eu diffinio a'u cyfleu'n eglur.
- 9 Mae'r Cyngor yn deall bod angen gwaith pellach i ddatblygu ei CATC. Adlewyrchir y bwriad hwn yn yr adroddiad naratif sy'n rhagflaenu'r Datganiad Cyfrifon anarchwiliedig 2021-22. Mae swyddogion wedi dweud wrthym bod gwaith ar y gweill i gryfhau'r CATC yn hyn o beth.
- 10 Mae'r bwloch cronuss o ran cyllid a ragamcanir yr adroddwyd arno gan y Cyngor wedi lleihau £5.467 miliwn yn ystod 2021-22, o £15.266 miliwn ym mis Mawrth 2021 i £9.759 miliwn ym mis Mawrth 2022 ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2023-24 a 2024-25. Nid yw'r ffigyrau hyn yr adroddwyd arnynt wedi'u harchwilio.

Arddangosyn 1: mae cyfanswm y bwloch o ran cyllid a ragamcanir gan y Cyngor yn y tymor canolig £9.759 miliwn – £5.467 miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd y llynedd

Mae'r graff hwn yn dangos y bwloch o ran cyllid yn y tymor canolig a nodwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 ac ym mis Mawrth 2022¹. Mae'r ffigyrau blynyddol yn rhai cronus.



- 11 Cafodd yr Aelodau CATC wedi'i ddiweddarau ym mis Chwefror 2022 fel rhan o gynigion drafft y gyllideb. Mae'n dangos nad oes gan y Cyngor fwloch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer 2022-23. Nid yw'r CATC diweddaraf yn nodi bwloch o ran cyllid a ragamcanir y tu hwnt i 2025.
- 12 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch cyllid dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn dal i ddibynnu ar ystod o dybiaethau, ac ar y cyd â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn gryn her i gynghorau.

¹ Ffynhonnell: Adroddiadau ar y gyllideb referniw ar gyfer 2021-22 a 2022-23 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2021 a 2022.

Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

- 13 Ers 2018-19, mae'r Cyngor wedi bod yn cynyddu ei gronfeydd wrth gefn bob blwyddyn. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos bod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd 2021-22 – mewn termau absoliwt ac fel canran o gost net gwasanaethau – yn uwch nag ar unrhyw adeg arall mewn chwe blynedd.

Arddangosyn 2: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021-22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu².

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Ffigyrau anarchwili edig 2021-22
Cost net Gwasanaethau mewn £ miliynau	336	335.4	343.2	344.5	337.5	352.6
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau³	82.4	87	90.9	100.5	137.2	175.7
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau	24.5%	25.9%	26.5%	29.2%	40.7%	49.8%
Cymharu â chynghorau eraill Cymru	4ydd	4ydd	4ydd	2il	2il	Heb ei gadarnhau eto

² Ffynhonnell: 2016-17–2020-21: [Offeryn data cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru](#); 2021-22: Datganiad alldro'r Cyngor

³ Ffynhonnell: Ein diffiniad o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

Cyflawni arbedion

- 14 Canfuom yn flaenorol fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond nad oedd ganddo unrhyw arbedion pellach wedi'u cynllunio o fewn ei gynllun ariannol tymor canolig cyfredol. Rhwng 2017-18 a 2019-20, dywedodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni rhwng 91.4% a 98.5% o'i arbedion wedi'u cynllunio.
- 15 Yn ystod 2021-21, yn ychwanegol at arbedion wedi'u cynllunio y cytunwyd arnynt o £3 miliwn, cyflawnodd y Cyngor £2 miliwn mewn arbedion ychwanegol. Defnyddiodd y Cyngor yr arbedion ychwanegol i helpu i bennu ei gyllideb ar gyfer 2021-22, a wnaeth felly negyddu'r angen am unrhyw arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2021-22.

Perfformiad yn erbyn y gyllideb refeniw

- 16 Fe wnaethom nodi mewn adroddiad blaenorol bod y Cyngor yn tanwario yn erbyn ei gyllidebau refeniw a chyfalaf, ac mae hyn yn dal i fod yn wir ar gyfer 2021-22.
- 17 Yn 2021-22, fe nododd y Cyngor danwariant sylweddol o £37.815 miliwn ar draws pob maes gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion a'r cyfrif refeniw tai (CRT), ac fe barhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth untro sylweddol yr oedd ei gyfanswm yn £27.5 miliwn. Canfuom na fu unrhyw danwariant ym mhwm cyfarwyddiaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi defnyddio £21.627 miliwn o'r tanwariant i gyfrannu at gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gyda'r £16.188 miliwn a oedd yn weddill yn cael ei ddyrannu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r Cyngor yn sefydlu trefniadau mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ond yn cydnabod yr angen i ddatblygu ei ddull ymhellach lle mae cyfranogiad y cyhoedd yn y cwestiwn

- 18 Fe gynhaliom ni ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Mai a mis Mehefin 2022. Casglwyd y dystiolaeth trwy gyfweiliadau ac adolygiadau o ddogfennau ac roedd hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Canolbwyntiodd ein gwaith ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu sefydlu i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf).
- 19 Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae'n rhaid iddo'i wneud i ateb gofynion y Ddeddf ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb.

- 20 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu perfformiad yn gyson ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad trwy hunanasesiad. Rhaid i gynghorau gyhoeddi hunanasesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- 21 Mae'r Cyngor wedi datblygu Canllaw Hunanasesu Drafft sy'n nodi sut y bydd yn cynnal ei hunanasesiad, gan gynnwys sut y bydd yn adolygu perfformiad yn gyson ac yn adrodd ar hunanasesu trwy gydol y flwyddyn; a sut y bydd yn ymgynghori ag eraill ynghylch ei berfformiad.
- 22 Dull rheoli perfformiad y Cyngor fydd y brif ffordd y bydd y Cyngor yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr hunanasesiadau yn y dyfodol y mae'n ofynnol iddo'u cynnal dan y Ddeddf. Ym mis Chwefror 2020 fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo fframwaith perfformiad newydd, sef Fframwaith Perfformiad Caerffili 2020. Mae'r fframwaith perfformiad yn bwriadu bod yn hunanfyfyriol, a chanolbwyntio ar weithredu, lliniaru risgiau a llywio gwelliant. Mae'r fframwaith yn cynnwys defnyddio set eang o ddata i asesu a herio perfformiad gan ddwyn ynghyd ddata ar berfformiad, data ar adnoddau (Ariannol a'r Gweithlu), gwybodaeth am reoli risg, gwybodaeth i ddeall cwsmeriaid a gwersi a ddysgwyr, ac asesiadau effaith.
- 23 Ym mis Chwefror 2020, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu ei Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025, sy'n nodi'r dull a'r egwyddorion y bydd yn eu dilyn i wella'r modd y mae'n ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i ddinasyddion a'i gymunedau. Mae camau gweithredu eisoes wedi cael eu cymryd yn hyn o beth, er enghraifft gwaith ymgysylltu 'Sgwrs Caerffili' sy'n rhoi cyfleoedd i gymunedau ymwneud yn fwy â materion sy'n effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gryfhau a chyfuno'i drefniadau i sicrhau bod ei agenda gyfranogi'n adlewyrchu ei uchelgeisiau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd ac mae wrthi ar hyn o bryd yn drafftio Strategaeth Gyfranogi newydd.
- 24 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd i ateb gofynion y Ddeddf. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth cynghorydd a phedwar aelod lleyg.

Cynllun lleihau carbon

Mae'r Cyngor yn deall her sylweddol dod yn sero net erbyn 2030 ac mae'n rhoi adnoddau a threfniadau ar waith i gyflawni ei gynllun gweithredu a monitro ei gynnydd

- 25 Ym mis Gorffennaf 2022, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn bwrw golwg ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd pa un a fydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei wireddu. Canfu ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â hwy ar y cyd i wireddu'r uchelgais ar y cyd. Canfuom, er eu bod yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, fod rhaid i gyrff cyhoeddus fynd ati yn awr i

gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gwneud datgarboneiddio'n ganolog i'w gweithrediadau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd.

- 26 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum alwad ganlynol ar gyfer gweithredu gan gyrrff cyhoeddus:
- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol;
 - egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad;
 - mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
 - nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
 - gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau.
- 27 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yn eistedd o fewn cyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu'n gyflymach ac am arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru o ran lleihau allyriadau carbon
- 28 Fe gynhaliom ni asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Strategaeth Ddatgarboneiddio a'r cynllun gweithredu ategol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Fe gasglom ni dystiolaeth trwy gyfweiliad â swyddogion allweddol yn y Cyngor, adolygiadau o ddogfennau ac ymateb y Cyngor i'r Alwad am Dystiolaeth. Fe wnaethom dynnu hefyd ar wybodaeth berthnasol gan ein Tîm Astudiaethau Cenedlaethol a gynhaliodd adolygiad sylfaenol o drefniadau'r sector cyhoeddus mewn ymateb i darged lleihau carbon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.
- 29 Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo ei Strategaeth Ddatgarboneiddio (y Strategaeth) – Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwysu, Prynu a chynllun gweithredu ategol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r risgiau i'r hinsawdd os nad eir i'r afael â chodiadau mewn tymheredd byd-eang, gyda'r cynllun gweithredu'n cynnwys nifer o gamau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu cymryd i leihau ei allyriadau carbon ei hun o'i gyfradd allyriadau carbon gyfredol i sero net erbyn 2030. Nid yw'r camau gweithredu hyn wedi cael eu costio'n llawn eto ac mae angen o hyd iddynt gael eu cynnwys yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor. Rydym yn deall heriau asesu cost ariannol camau datgarboneiddio a'u heffaith ar allyriadau carbon, ond bydd y data hwn yn allweddol i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n dwyn yr adenillion mwyaf ac i ddeall y gofynion o ran cyllid. Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o risgiau a chyfleoedd byrdymor a hirdymor ar gyfer cyflawni sero net. Mae'r Cyngor wedi sefydlu ei ddata sylfaenol o ran allyriadau carbon.
- 30 Mae'r Cyngor yn deall her sylweddol mynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni sero net erbyn 2030. Mae'r Cyngor wedi adnabod angen am newid mewn diwylliant a newidiadau mewn arferion gweithio ac wedi nodi bod hyn yn hanfodol. Fe ymgysylltodd y Cyngor ag aelodau etholedig a staff wrth ddatblygu'r Strategaeth. Fe gynhaliodd y Cyngor weithdai staff a sesiynau un-i-un gyda rheolwyr gwasanaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth ac mae'r Cyngor yn bwriadu

parhau â'r gweithgarwch cynnwys hwn wrth iddo gyflawni'r cynllun gweithredu ac wrth i ragor o adnoddau fod ar gael. Hyd yma, er bod y Cyngor wedi ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac wedi eu cynnwys wrth ddatblygu'r strategaeth, mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n fewnol ar gyrraedd statws carbon niwtral erbyn 2030. Dros amser, mae'r Cyngor yn bwriadu ehangu ei ffocws ar ei gymunedau i gyflawni statws sero net yn y Fwrdeistref erbyn 2050.

- 31 Mae'r Cyngor yn cynyddu ei wariant refeniw ar gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu. Yn 2022, fe benododd y Cyngor Reolwr Datgarboneiddio parhaol o fewn y tîm trawsnewid corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn recriwtio dau swyddog ychwanegol i weithio gyda'r Rheolwr Datgarboneiddio am gyfnod penodedig o ddwy flynedd i dechrau ac mae gan y Cyngor swm cychwynnol o £500,000 mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu mwy o gapasiti a sgiliau staff i ddeall a chyflawni'r strategaeth. Mae cefnogi gwasanaethau unigol ac uwchsgilio staff yn rôl allweddol i'r Rheolwr Datgarboneiddio newydd a benodwyd. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys camau gweithredu i wella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â staff, eu cynnwys, cyfathrebu gyda hwy, eu hyfforddi a chodi eu hymwybyddiaeth.
- 32 Mae'r Cyngor yn cydnabod, er mwyn cyrraedd y nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030, bod yn rhaid ymgysylltu â holl wasanaethau'r Cyngor a'u cynnwys. Mae'r cynllun gweithredu'n adlewyrchu hyn ac yn neilltuo cyfrifoldeb am gymryd camau gweithredu i nifer o wasanaethau'r Cyngor: Rheoli Gwastraff, Cyfathrebu, Adfywio, Cynllunio, Peirianeg, Caffael, Parciau, Priffyrdd, Draenio, Tai ac Eiddo a Thrafnidiaeth.
- 33 Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu'r trefniadau llywodraethu a monitro i oruchwylio ac asesu cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu. Cyn creu'r strategaeth, roedd gan y Cyngor Gynllun Lleihau Carbon. Roedd gan y cynllun hwn drefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen diweddarau a chryfhau'r trefniadau hyn ar gyfer y strategaeth newydd. Ar hyn o bryd, mae nifer o grwpiau monitro mewnol gan swyddogion ar gyfer gwahanol elfennau o'r cynllun gweithredu ac mae'r Cyngor yn ystyried ffurfio gweithgor troswaol o swyddogion i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun cyfan. Wedyn byddai'r grŵp hwn yn adolygu cynnydd cyn bod y tîm rheoli corfforaethol, y pwyllgor craffu perthnasol a'r Cabinet yn cael adroddiadau ar gynnydd.
- 34 Y bwriad yw bod y camau gweithredu sy'n ategu'r strategaeth ac sy'n berthnasol i bob gwasanaeth yn cael eu cynnwys ym mhob Asesiad o Berfformiad Cyfarwyddiaeth. Dylai hyn greu cysondeb rhwng y strategaeth a chyfarwyddiaethau unigol a'u cyfrifoldebau. Ar hyn o bryd mae Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn cael diweddariadau ar ffurf Asesiadau o Berfformiad Cyfarwyddiaethau bob chwe mis, ac mae hwn yn drefniant arall i aelodau gael diweddariadau ac asesu cynnydd.
- 35 Ceir nifer o gyfleoedd i ddsygu oddi wrth eraill a'r hyn sy'n digwydd mewn cynghorau eraill. Mae'r Rheolwr Datgarboneiddio'n arwain yr asesiad llesiant newid hinsawdd/datgarboneiddio ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ar hyn o bryd ac yn cydweithio'n agos gyda chymheiriaid yng nghynghorau eraill

Gwent. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfranogi'n weithredol mewn rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol

Argymhellion

Arddangosyn 3: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

- A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei gamau gweithredu arfaethedig i gyrraedd sero net erbyn 2030:
- yn cael eu costio'n llawn o ran eu heffaith ar allyriadau carbon a'u heffaith ariannol i'w alluogi i flaenoriaethu camau gweithredu;
 - yn gael eu hadlewyrchu'n llawn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i Strategaeth Gyfalaf; ac
 - yn cael eu hintegreiddio i mewn i Asesiadau o Berfformiad Cyfarwyddiaethau.
- A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu set gadarn o fetrigau i fesur cynnydd o ran ei daith ddatgarboneiddio ac adrodd ar y cynnydd hwnnw.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.